Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mai 28ain, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Richard Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Hugh Towns, Cyng Ros Bellamy
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Cyng Fran Murphy.

Materion yr Heddlu : Adroddodd PC Vernon Thomas fod 5 achos o ddifrod troseddol wedi digwydd yn ystod y mis, gyda 3 ohonynt wedi'u datrys. Un achos o dwyll, ac ymchwiliadau'n parhau mewn 2 achos o ymosodiad. Darganfuwyd tair trosedd yn ymwneud â chyffuriau o ganlyniad i warant a godwyd fel rhan o ymgyrch gan yr Heddlu.

Cof 42 / Mai / 08 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Anfonodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei ymddiheuriadau ni allai fynychu oherwydd ymrwymiadau blaenorol.

Cof 43 / Mai / 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Ebrill 23ain 2008 a'u cadarnhau fel gwir gofnod. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher Mai 14eg 2008 a'u cadarnhau fel gwir gofnod, wedi gwneud y newid canlynol:-
Cof 36 / Mai / 08 :2. Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Gymraeg Teilo Sant. Cynigiodd y Cyng Charlotte Leadbeater y Cyng Roy Davies, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 44 / Mai / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Ynghylch Cof 30 / Ebrill / 08, Cyng Hugh Towns wedi cwblhau'r adolygiad blynyddol yn ôl y cais bydd yn dilyn gyda thrafodaeth grŵp gyda'r swyddogion.

Cof 45 / Mai / 08 Ystyried y Swydd Wag ar y Cyngor

Cynigiodd y Cyng Richard Wallace y dylai'r Cyngor gyfethol Julia Jones yn ôl ar y Cyngor. Eiliodd y Cyng Ros Bellamy y cynnig. Roedd pawb o blaid.
Arwyddodd Julia Jones y llyfr Datganiad.

Cof 46 / May / 08 Materion Ariannol

1. Anfonebau i'w talu

Terry Davies (gwaith ar Neuadd y Sir)	£	270.25
Terry Davies (gwaith ar Neuadd y Sir)	£	416.08
Terry Davies (gwaith ar Neuadd y Sir)	£	59.55
Yr eitem olaf i'w anfon at Cambria i'w dalu		
WCVA (gweinyddiaeth) Ebrill	£	35.54
WCVA (cyflogau) Ebrill	£	178.71
Seminar Cynllunio CSC	£	30.01
Morgan & Morgan (inc argraffydd y Clerc)	£	92.68

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Morgan & Morgan (inc argraffwyr y swyddfa)	£	45.45
Yswiriant digwyddiadau Zurich (Parc Penlan)	£	52.50
Ar y Gair (cyfieithiad o amserlen Parc Penlan)	£	28.40
WCVA (gweinyddiaeth) May	£	35.54
WCVA (cyflogau) May	£	76.40

Cynnig talu gan y Cyng Ieuan Gwyn eiliodd y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill

a) Fel y cytunwyd yn y Cyfarfod Blynyddol cyflwynwyd anfoneb ar gyfer aelodaeth flynyddol i Gymdeithas y Clerciaid. Roedd am £91 ac fe gytunwyd i'w dalu.

b) Cofrestr Asedau Sefydlog. Cyng Colin Jenkins wedi cwrdd â'r Swyddog Cyllid ynghylch y gofrestr. Archwilydd Mewnol wedi awgrymu y dylai'r Cyngor drefnu prisiad o Neuadd y Sir. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns i'r Pwyllgor Cyllid ddelio â hyn yn eu cyfarfod ym mis Mehefin. Eiliodd y Cyng Ieuan Gwyn y cynnig. Roedd pawb o blaid.

c) Gan fod y Bond Llog Uchel yn mynd i aeddfedu ar Fehefin 12fed, cytunwyd i'w fuddsoddi am dri mis pellach.

d) Cyfrif y Maer. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns ac eiliodd y Cyng Ros Bellamy i drosglwyddo £1000 o'r cyfrif cyffredinol i Gyfrif y Maer. Roedd pawb o blaid.

e) Adroddodd y Swyddog Cyllid ei fod wedi cyflwyno cais am adennill TAW o £3,980.94 am y flwyddyn 2007-8, yn seiliedig ar fusnes y Cyngor.

Cof 47 / Mai / 08 Gohebiaeth sydd angen ymateb

1. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Camau Lleihau Risg. Enwebwyd y Cyng Colin Jenkins i ddarllen y ddogfen ac adrodd nôl i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.
2. Cyfarfod Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd y Cynghorwyr a enwebwyd yn mynychu.
3. Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig yng Nghymru- Prosiect Agor Drysau. Cytunwyd y dylai'r Cyngor gynnig agor Neuadd y Sir i'r cyhoedd ar benwythnosau'r 6/7fed a'r 20/21ain o Fedi. Cyng Roy Davies, y Cyng Chris Parish a'r Cyng Hugh Towns i gwrdd â thrafod y manylion gydag Archaeoleg Cambria.
4. CSC - Cynllun goleuo goleuadau nos rhan amser. Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Cynllunio i'w drafod.

Cof 48 / Mai / 08 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Ieuan Wyn Jones – ateb i lythyr Adam Price ar ran y gwrthwynebwyr i newid y cyfyngiadau parcio ar Stryd y Bont. Nodwyd.
2. LlCC - enghraifft o'r enillion o gosbau penodol disgwyliedig gan awdurdodau lleol o ran cŵn yn baeddu. Nodwyd.
3. G.L.Jones – Catalog offer Iard Chwarae Nodwyd.
4. CAVS - Cylchgrawn Llais Myrddin.
5. CAVS – cyrsiau ar gyfer grwpiau gwirfoddol.
6. Hysbysiad o Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 2008 ar 31.10.08. Nodwyd.

Cof 49 / Mai / 08 Ystyried Cynnig

Cynigiwyd yn y cyfarfod diwethaf gan y Cyng Hugh Towns, 'Mae'r Cyngor yn diddymu'r Rheolau Sefydlog sydd mewn grym ar hyn o bryd a'u cyfnewid am set newydd o Reolau Sefydlog (copïau ynghlwm)'. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Cafodd y Cyngor hysbysiad am gynnig ac roedd pawb o blaid mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog newydd. Byddant yn gweithredu o'r cyfarfod hwn ymlaen.

Cof 50 / Mai / 08 Ystyried Materion Cynllunio sydd heb eu penderfynu

a) Ceisiadau Cynllunio sy'n aros am benderfyniad.

E/16452 Tŷ Annedd Newydd (materion cadw) ar dir cyfagos i Frondeg, Heol Caerfyrddin.
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/19044 Estyniad Dau Lawr i Annedd (ailgyflwyno E/18590 Gwrthodwyd ar 22.4.08) yn 6, Y Trallwng, Llandeilo.
Sylw : Dim gwrthwynebiad

b) Penderfyniadau Ceisiadau Cynllunio

E/18418 Dymchwel strwythur un llawr yn y cefn ac adeiladu estyniad dau lawr (creu llawr uchaf a llawr gwaelod isaf) yng nghefn 10 Heol Stepney.
GWRTHODWYD

E/18590 Estyniad dau lawr i annedd yn 6, Y Trallwng.
GWRTHODWYD

E/18474 Tŷ ar wahân a garej (ailgyflwyno E/17242 gwrthodwyd ar 27.11.07). Tir cyfagos i 28 Heol Caerfyrddin.
GWRTHODWYD

c) Apêl Ceisiadau Cynllunio.

Adran 78/174 - Tir yn 2 Red Cottages, Heol Caerfyrddin - Gwrthodwyd yr Apêl.

Cof 51 / Mai / 08 Trafnidiaeth a Phriffyrdd

CSC – Hysbysiad am gau Stryd y Farchnad dros dro o Fehefin 2il am bythefnos er mwyn diweddaru gwaith cyhoeddus.

Cof 52 / Mai / 08 Trefniadau ar gyfer y Dathliadau Canmlwyddiant ym Mharc Penlan

Rhoddodd y Maer Cyng Edward Thomas adroddiad ar y cynnydd. Roedd y rhaglen wedi mynd at yr argraffwyr. 1,200 o gopïau wedi'u harchebu am amcangyfrif cost o £1,480. Cytunodd Cynghorwyr i ddosbarthu rhaglenni â llaw i bob tŷ. Anogodd y Maer yr holl Gynghorwyr i wisgo gwisg Edwardaidd ar gyfer yr orymdaith. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 3ydd.
Nododd y Cyng Roy Davies bydd stondin y Cyngor yn canolbwyntio ar Landeilo yn y gorffennol a Llandeilo yn y presennol. Gofynnodd am gymorth i edrych ar ôl y stondin yn ystod y prynhawn.

Cof 53 / Mai / 08 Adroddiad y Swyddog Technegol

Nododd Mr Davies fod y meinciau newydd yn eu lle. Mae'r llwybrau ym Mharc Penlan yn cael eu tarmacio. Roedd yn gobeithio y byddai cyfarfod rhwng y stiwardiaid, ar gyfer dathliadau Parc Penlan, yn cael ei drefnu cyn gynted â phosib.
Roedd Mr Hugh Gwynne wedi torri'r gwair am y tro cyntaf eleni. Adroddodd fod cŵn yn baeddu'n ddifrifol rhwng yr ardal drafnidiaeth a Phont y Brenin.
Roedd y Ficer wedi cytuno gosod 2 fainc newydd yn y fynwent.
O ganlyniad i drafodaeth cytunwyd gofyn i adran Gwasanaethau Stryd CSC i ailosod yr arwyddion ffyrdd sydd wedi'u difrodi o amgylch y dref yn ogystal ag ychwanegu i'r nifer o finiau sbwriel ar hyd y Cilgant.

Cof 54 / Mai / 08 Adroddiad y Maer

Cyflwynodd y Maer adroddiad ar y digwyddiadau a fynychodd yn ystod y mis ar ran y Cyngor.

Cof 55 / May / 08 Is-grwp Treialon Cŵn Defaid y Byd

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ar gyfarfod o'r is-grŵp. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns i'r Cyngor drefnu fod Catrawd Cadbibau a Drymiau Cymru ynghyd â Masgot y Gatrawd, Shenkin yr afr yn dod i orymdaith y cystadleuwyr ar ddydd Mercher, Medi 10fed am bris o £1,000 a chostau teithio ychwanegol. Eiliwyd gan y Maer. Roedd pawb o blaid. Roedd y Cyng Colin Jenkins wedi cysylltu gyda'r ddwy Ysgol Gynradd a gofyn iddynt gynhyrchu baneri'r cenhedloedd ar gyfer yr orymdaith. Mae gan y Cyngor stondin yn y Babell Fawr ar y safle yn Nhŷ'r Drenewydd. Angen trefnu'r Neuadd Ddinesig ar gyfer cynnal derbyniad. Byddwn yn gofyn i Ysgol Tre-gib ddarparu gweinyddwyr i weini'r bwffe. Bydd côr lleol a Dawnswyr Penrhyd yn darparu adloniant yn ystod y derbyniad.

Cof 56 / Mai / 08 Ystyried Model Newydd y Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr

Archwiliodd y Cyng Ieuan Gwyn y Côd Ymddygiad newydd a gweld nad oedd llawer o wahaniaeth rhyngddo a'r ddogfen sydd mewn gweithrediad ar hyn o bryd. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy i'r Cyngor fabwysiadu'r côd ymddygiad newydd hwn. Eiliodd y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid. Gofynnwyd i'r Clerc cysylltu gyda Chyngor Sir Gâr yn gwneud cais iddynt drefnu diwrnod hyfforddiant ar gyfer y Cynghorwyr.

Cof 57 / Mai / 08 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Tynnodd y Clerc sylw'r Cyngor at y gwrthdaro rhwng dyddiadau'r Pwyllgorau Cynllunio a Chyllid sydd wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher, Medi 10fed, 2008 a'r derbyniad mae'r Cyngor yn noddi ar gyfer y cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn Nhreialon Cŵn Defaid y Byd ar yr un noson.
Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace i newid dyddiadau'r cyfarfodydd pwyllgor i Fedi 3ydd, 2008. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm